

Date/Dyddiad 09 Ionawr 2023
Ask for/Gofynwch am N Slater
Telephone/Rhif ffôn 01446 709828
Fax/Ffacs
e-mail/e-bost Sustainablecommunitiesforlearning
@valeofglamorgan.gov.uk
Your Ref/Eich Cyf
My Ref/Cyf SCfL/ LPS-YYDd

The Vale of Glamorgan Council
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk



Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Rhif ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llandochau ac Ysgol Y Ddraig; Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llandochau ac Ysgol Y Ddraig; Ymgynghorai Penodedig.

Annwyl Ymgynghorai,

Adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol Y Ddraig o Ionawr 2023.

Ymgynghorodd yr Awdurdod Lleol ag ymgynghorai rhagnodedig ar y cynnig i adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol Y Ddraig o Ionawr 2023. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 13 Gorffennaf 2022 a 22 Medi. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgynghorai rhagnodedig am y cynnig a rhoi cyfle i adborth gael ei gyflwyno. Derbyniwyd 4 ymateb unigol, roedd yr holl ymatebion o blaid y cynnig..

Ar 3 Tachwedd 2022, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd yr Awdurdod Lleol fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan yr ysgol a gwefan y Cyngor ar 9 Tachwedd 2022 ac fe'i cyflwynwyd i ymgynghorai rhagnodedig a'i bostio ym mhrif fynedfeydd Ysgol y Ddraig ac Ysgol Gynradd Llandochau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon at y cynigydd cyn diwedd 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan y cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 9 Tachwedd 2022, roedd yn rhaid derbyn gwrthwynebiadau statudol erbyn 7 Rhagfyr 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu; fodd bynnag, derbyniwyd 2 wrthwynebiad hwyr ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Cafodd y gwrthwynebiadau hwyr eu crynhoi yn yr Adroddiad Cryno ar y Cyfnod Gwrthwynebiadau ynghyd â'r ymateb gan yr Awdurdod Lleol i'r gwrthwynebiadau hwyr. Mae'r Adroddiad Cryno ar y Cyfnod Gwrthwynebiadau ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor yn:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Consultation-on-SRB-re-location-to-Ysgol-Y-Ddraig.aspx>

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ystyriodd yr Awdurdod Lleol y cynnig i ddarparu penderfyniad terfynol. Ar 5 Ionawr 2023, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol Y Ddraig o Ionawr 2023.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Parhau i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu o fewn amgylchedd ysgol gynradd prif ffrwd.
- Darparu gwell amgylcheddau dysgu sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio a chefnogi plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Darparu parhad yn y ddarpariaeth ym Mro Morgannwg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol drwy Ysgol Y Ddraig.
- Sicrhau y gellir diwallu anghenion disgyblion ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu o fewn yr awdurdod lleol a'u cefnogi i aros yn eu hysgol brif ffrwd.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â'r ffactorau a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

Ansawdd a Safonau Addysg

Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddisgyblion presennol ac yn y dyfodol yn Ysgol Y Ddraig a'r CAA yn dilyn adleoli'r uned. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau mewn addysg drwy ddarparu:

- Gwell seilwaith TGCh, ardaloedd grŵp cydweithredol, a chylchrediad effeithiol oherwydd cyflwyno'r ysgol o dan Fand A'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion newydd gael eu hadeiladu i safonau modern.
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol i staff addysgu ar draws Ysgol y Ddraig mewn perthynas ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.
- Lleoliad canolog o fewn yr Awdurdod i ddarparu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu mewn lleoliad mwy hygyrch i ardal ehangach o'r Awdurdod.

Trefniadau Teithio

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'. Byddai llai o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd a fyddai o fewn pellter cerdded i'r cynnig, fodd bynnag, gan fod y Fro gyfan yn defnyddio'r CAA, ystyrir ei bod yn debygol y bydd amseroedd teithio disgyblion yn newid. Adlewyrchir hyn mewn data hanesyddol ar gyfer yr CAA gyda mwy o ddisgyblion yn teithio o orllewin y Fro yn y blynyddoedd blaenorol. Nodir bod lleoliad Ysgol y Ddraig wedi'i lleoli'n fwy canolog o fewn yr Awdurdod na'r CAA yn Llandochoau ac mae'n hawdd ei chyrraedd o'r B4265 sy'n cysylltu â rhwydwaith strategol ehangach yr Awdurdod.

Bydd cymhwyster disgyblion ADY yn y CAA sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiad rhesymol ar gludiant prif ffrwd yn cael ei benderfynu gan y Tîm ADY. Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth ac yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddosbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy. (disgyblion oed cynradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Yn ogystal, lle nad oes angen trefniadau teithio arbenigol, bydd disgyblion sy'n byw 2 filltir neu ymhellach i ffrwd o'r ysgol yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol am ddim safonol.

Adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill

Nid yw'r cyllid ar gyfer y CAA yn gyllideb sy'n cael ei dirprwyo o fewn y fformiwla ariannu ysgolion. Yn hytrach, mae'n gyllideb a gedwir yn ganolog sy'n ariannu dau athro a phedwar swyddog cymorth

dysgu. Ar gyfer 22/23 y gyllideb i gyllido staff yr CAA yw £223,525. O ran diogelu'r cyllid, nid oes unrhyw gynlluniau i dorri'r ddarpariaeth yma, bydd y gyllideb ar gyfer 23/24 yn seiliedig ar yr un fformiwla er gyda thwf wedi ei ddyrannu i adlewyrchu chwyddiant. Bydd yr ysgol hefyd yn derbyn £11,488 trwy'r fformiwla ariannu prif ffrwd sy'n cwmpasu costau ychwanegol mewn perthynas â'r disgyblion o fewn y CAA megis adnoddau.

Mae'r costau cludiant ar gyfer symud yr CAA dros dro yn Ysgol y Ddraig ar hyn o bryd tua £44,000 y flwyddyn gan gynnwys cludo staff. Y costau cludiant i Llandochau cyn symud dros dro oedd £48,000 y flwyddyn. Gall costau cludiant amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar gyfeiriad cartref y disgyblion sy'n mynychu'r CAA. Felly, ni ellir rhagweld unrhyw arbedion neu gynnydd mewn costau trafnidiaeth yn gywir yn y tymor hwy. Gall disgyblion fynychu o bob rhan o Fro Morgannwg gan arwain at amrywiadau mewn costau yn seiliedig ar angen sy'n codi.

Trefniadau Staff

Byddai'r uned CAA yn cael ei rheoli'n ganolog gan y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau mewn ymgynghoriad â phennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Y Ddraig. Mae'r ardal CAA wedi'i dylunio i gynnwys hyd at 20 o ddysgwyr. Byddai staff o'r CAA presennol yn Ysgol Gynradd Llandochau yn cael eu hadleoli'n barhaol i Ysgol Y Ddraig i gefnogi dysgwyr o fewn y CAA. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i staffio yn destun ymgynghoriad llawn gyda staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen.

Ffactorau cyffredinol eraill

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y byddai effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig crefydd, oedran, anabledd ac ailbennu rhyw/hunaniaeth. Byddai'r cynnig yn cefnogi'r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng y rhai â nodweddion gwarchoddedig gwahanol. Ni welwyd unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 8 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol.

Yr eiddoch yn gywir,



Paula Ham,

Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

Cyngor Bro Morgannwg

09/01/2023